

Mae'r ysgol yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr i gefnogi disgyblion trwy:

- Cynnal nosweithiau rhieni
- Cael cysylltiadau cadarn gyda'r rhieni er mwyn ddatblygu gallu rhieni i gynorthwyo eu plant
- Danfon llyfr'u'r plant adref bob hanner tymor er mwyn i'r rhieni weld a thrafod datblygiad gwaith eu plant
- Wythnos 'Dewch a rhiant i'r ysgol' lle mae'r plant yn gallu dod a rhiant i'r ysgol
 - Mae rhieni yn derbyn QR cod yn flynyddol sy'n eu galluogi nhw i weld cynnydd eu plant ers iddynt ymuno a'r ysgol a rhai samplau o'u gwaith
- Disgyblion a rhieni yn cyfrannu at osod ac adolygu targedau
- Cynnal gweithgareddau efo'r rhieni i helpu nhw i ddysgu a helpu eu plant
- Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd
(Estyn 2018)

Effaith y cwricwlwm newydd

Mae'r cwricwlwm newydd yn dod mewn i'r arfer yn fis Medi 2022. Yn ôl Llywodraeth Cymru ni fydd yr athrawon yn cael dywed wrthynt sut dyle nhw ddysgu ond yn hytrach y wybodaeth ar sgiliau hanfodol dyle pob plentyn cael. Felly bydd gan yr athrawon y rhyddid i fowldio'r cwricwlwm i weddu i anghenion y dysgwyr.

(Wales Online 2021).

Dechrau wrth fy nhraed

Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las

Mae ysgol Lôn Las wedi ei lleoli yn heol Walters, Llansamlet yn Abertawe ac mae yna 558 o ddisgyblion yna. Agorodd yr ysgol yn 1949 ond yn 2017 cafodd yr ysgol, ysgol newydd.

Mae gan ysgol Lôn Las 16 ystafell dosbarth ac yn ganolbwynt i bob adran mae yna ardaloedd addysgu mawr ychwanegol. Yn ogystal mae gan yr ysgol llyfrgelloedd lliwgar, ardaloedd creadigol ardaloedd TGCH, a gweithleoedd tawel ar gyfer grwpiau i ddatblygu sgiliau amrywiol.

Mae gan yr ysgol llawer o ardaloedd chwarae awyr agored, ardal borfa sydd yn cael ei defnyddio ar gyfer chwaraeon fel rygbi, pêl droed ac athletau. Mae yna hefyd llawer o dir gwyllt a phwll a'r safle'r ysgol, yn ogystal â mannau chwarae mawr ac ardaloedd arbennig ar gyfer plant y meithrin a derbyn

Systemau ecolegol Bronfenbrenner


Mae theori Bronfenbrenner awgrymu mai'r amgylchedd y mae plant yn byw ynddo sy'n cael yr effaith fwyaf dwys ar eu haddysg. Mae pob lefel yn cyfeirio at y rhyngweithiadau amrywiol y mae plant yn cael trwy gydol eu bywydau o ei gartref i'r ardaloedd maen nhw yn byw ynddo. Mae cydweithio cymunedol yn bwysig i blant sydd yn y dosbarth gan ei fod yn helpu creu perthnasoedd, helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plentyn, creu modelau rôl gadarnhaol a chreu cymuned.

Mae cael cyswllt rhwng yr ysgol, rhieni ar gymuned yn bwysig i ysgol Lôn Las. Mae'r ysgol yn cadw men cysylltiad efo'r rhieni trwy cael: cylch lythyr wythnosol y llywodraethwyr, papur Newydd tymohrol Clebran Cŵl, gwefan yr ysgol, cyfrif trydar, trwy Hwb a J2E a trwy Weduc sef llwyfan cyfathrebu'r ysgol. Mae cwricwlwm newydd Donaldson yn pwysleisio mwy o gymhwysedd digidol ac mae ysgol Lôn Las yn gwneud hyn trwy defnyddio Hwb, J2E, trwy cael cyfrif trydar ac trwy ddefnyddio'r llwyfan cyfathrebu Weduc



Cyn dechrau yn yr ysgol

Cyn i'r plant dechrau yn yr ysgol mae'r ysgol yn dechrau creu cysylltiadau efo'r teulu. Ar ôl i'r plentyn cael i gofrestru efo'r ysgol ar sir mae'r rhieni ar blant yn cael gwahoddiad i ddod i weld yr ysgol cyn i'r plentyn dechrau. Yn ogystal mae gan yr ysgol cylch meithrin sy'n cael i gynnal mewn neuadd gymunedol efo amserlen debyg i'r ysgol er mwyn paratoi'r plant yn barod am ddod i'r ysgol



Llewod Lôn Las

Cymdeithas rhieni ac athrawon yw'r Llewod Lôn Las sef cefnogaeth gan athrawon, rhieni a chyfeillion yr ysgol. Er mwyn hybu safon addysgu'r plant mae'r ysgol yn derbyn cymorth ariannol ac ymarferol cyson gan Llewod Lôn Las. Cynhelir y gymdeithas cyfarfodydd tymhorol lle mae gweithgareddau yn cael i drefnu mwyn codi arian i'r ysgol, ond blaenoriaeth y gymdeithas yw darparu cymuned gydweithredol a bywiog ar gyfer yr ysgol.

Cyfeirnodau

Guy-Evans,O.(2020). *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*.Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Accessed:3/12/21)

Estyn (2018) . *Adroddiad ar Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las*. Ar gael yn: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las-adroddiad-estyn.pdf> (Accessed: 17/11/21)

Wrightwick.A.(2021) *What all parents and children need to know about Wales' landmark curriculum bill*, Ar gael yn: <https://www.walesonline.co.uk/news/education/curriculum-bill-wales-education-schools-20017499> (Accessed 20/12/21)

Llywodraeth Cymru, (2020), *A new curriculum in Wales Changing the way children and young people learn in school* Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/a-new-curriculum-in-wales-easy-read/>, (Accessed: 4/12/21)

Lluniau

Gwefan Ysgol Lon Las (Dim Dyddiad). Ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk/crach-pta/> (Accessed: 17/11/21)

Guy-Evans,O.(2020). *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*.Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Accessed:3/12/21)